Canolfan Hyfforddi Llywodraethwyr ac Ymchwil Cymru Gyfan

Swansea Metropolitan University
Prifysgol Fetropolitan Abertawe

CYNNWYS RÔL LLYWODRAETHWYR YSGOL YN BWNC AR GYRSIAU ADDYSG A ADDYSGIR MEWN SEFYDLIADAU ADDYSG UWCH YNG NGHYMRU

Canolfan Hyfforddi Llywodraethwyr ac Ymchwil Cymru Gyfan
Ysgol Addysg Abertawe, Prifysgol Fetropolitan Abertawe
Heol Townhill, ABERTAWE SA2 0UT
Ffôn: 01792 482065 **Ffacs: 01792 482076**
E-bost: steve.gullick@smu.ac.uk
www.smu.ac.uk/schoolgovernor

Ebrill 2010

CYNNWYS

Rhagarweiniad 1

Cyrsiau Addysg a Addysgir a ddarperir gan Adrannau Addysg mewn Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru 2

Cyrsiau Addysg a Addysgir a gynhelir gan Adrannau Addysg mewn Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru a chanddynt adran benodol ar rôl Llywodraethwyr Ysgol 5

Pynciau a gwmpesir wrth addysgu rôl Cyrff Llywodraethu Ysgolion ar gyrsiau a chanddynt adran benodol sy'n canolbwyntio ar rôl Cyrff Llywodraethu Ysgolion 9

Adrannau o gyrsiau lle bo Rôl Llywodraethwyr Ysgol yn cael ei chyfeirio ati, neu lle rhoddir sylwadau arni, ond lle nad yw amser penodol wedi'i ddyrannu iddi 11

Aseiniadau myfyrwyr ar rôl Llywodraethwyr Ysgol ar gyrsiau a addysgir mewn Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru 13

Crynodeb o Gasgliadau 15

Crynodeb o Argymhellion 16

Atodiad 1

RHAGARWEINIAD

Comisiynwyd yr astudiaeth hon gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac fe'i chynhaliwyd gan Ganolfan Hyfforddi Llywodraethwyr ac Ymchwil Cymru Gyfan.

Ei phwrpas yw cynnal ymchwil i gynnwys rôl llywodraethwyr ysgol yn bwnc ar gyrsiau addysg a addysgir mewn Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru.

Mae canfyddiadau'r astudiaeth wedi'u seilio ar arolwg ar ffurf holiadur (Atodiad 1) a anfonwyd at bob Sefydliadu Addysg Uwch sy'n cynnig cyrsiau addysg a addysgir yng Nghymru.

Rhestrir y sefydliadau sy'n darparu cyrsiau o'r fath isod:

Prifysgol Aberystwyth
Prifysgol Bangor
Prifysgol Glyndŵr
Prifysgol Cymru, Casnewydd
Prifysgol Fetropolitan Abertawe
Coleg Prifysgol y Drindod
Prifysgol Metropolitan Caerdydd (UWIC)

2 CYRSIAU ADDYSG A ADDYSGIR A DDARPERIR GAN ADRANNAU ADDYSG MEWN SEFYDLIADAU ADDYSG UWCH YNG NGHYMRU

2.1 Dangosir y Sefydliadau Addysg Uwch a'r cyrsiau addysg a addysgir y maent yn eu cynnig yn Nhabl 1 "Cyrsiau Addysg a addysgir a ddarperir gan Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru."

Tabl 1: Cyrsiau Addysg a addysgir a ddarperir gan Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru.

Enw'r Sefydliad	**Israddedig**	**TAR**	**Meistri a Diplomâu i Raddedigion**
Prifysgol Aberystwyth	BA Astudiaethau Plentyndod Graddau BA Cyfun ag Addysg	TAR Cynradd TAR Uwchradd	
Prifysgol Bangor	BA Addysg Gynradd gyda Statws Athro Cymwysedig (SAC) BSc Dylunio a Thechnoleg (Uwchradd) gyda SAC	TAR Cynradd TAR Uwchradd	MA/MEd
Prifysgol Glyndŵr	BA Addysg Gynradd gyda SAC BA Astudiaethau Plentyndod Cynnar Gradd Sylfaen Astudiaethau Plentyndod Cynnar Gradd Sylfaen Cymorth Dysgu		MA Tystysgrif /Diploma i Raddedigion mewn Addysg
Prifysgol Cymru, Casnewydd (Wedi'i barhau ar y dudalen nesaf)	BSc Mathemateg Uwchradd gyda Gwyddoniaeth BSc Gwyddoniaeth Uwchradd gyda Mathemateg BSc Mathemateg Uwchradd gyda TGCh BSc Gwyddoniaeth Uwchradd gyda TGCh BA Astudiaethau Cynradd (Daw'r holl gyrsiau	TAR Uwchradd	MA Addysg MA Astudiaethau Plentyndod MA Blynyddoedd Cynnar (Cafwyd gwybodaeth am y tri chwrs uchod oddi ar wefan y Brifysgol.)

Enw'r Sefydliad	Israddedig	TAR	Meistri a Diplomâu i Raddedigion
Prifysgol Cymru, Casnewydd (Parhad)	uchod gyda SAC) Tystysgrif mewn Addysg Uwch, Cyflwyniad i Addysgu Uwchradd BA Addysg BA Astudiaethau Addysg BA Blynyddoedd Cynnar BA Addysg Gynhwysol (Cafwyd gwybodaeth am y pedwar cwrs uchod oddi ar wefan y Brifysgol.)		
Prifysgol Fetropolitan Abertawe	BA Astudiaethau Addysgol Gradd BA Cyfun gydag Astudiaethau Addysgol Gradd Sylfaen	TAR Cynradd TAR Uwchradd	MA Addysg Diploma i Raddedigion
Coleg Prifysgol y Drindod	BA Addysg Gynradd gyda SAC	TAR Uwchradd mewn Addysg Grefyddol	MA Addysg Tystysgrif/ Diploma i Raddedigion
Prifysgol Metropolitan Caerdydd (UWIC)	BA Addysg	TAR Cynradd TAR Uwchradd (Cafwyd gwybodaeth am y cyrsiau uchod oddi ar wefan y Brifysgol.)	MA Addysg (Cafwyd gwybodaeth am y cwrs uchod oddi ar wefan y Brifysgol.)
**Yn anffodus, nid oedd yr ymatebion a gafwyd yn yr holiaduron gan nifer o Sefydliadau Addysg Uwch bob tro'n cwmpasu'r holl gyrsiau roeddynt yn eu cynnig. Lle bo hyn yn wir, cafwyd Gwybodaeth bellach oddi ar wefannau'r Sefydliadau. Dangosir hyn yn y tabl lle bo'n berthnasol.*			

2.2 Mae'n glir bod ystod eang o gyrsiau'n cael eu cynnig mewn Sefydliadau Addysg Uwch (SAU) ar draws Cymru.

2.3 Mae pob un namyn dau SAU yn cynnig cyrsiau ar lefel israddedig, TAR a Meistri neu Ddiploma i Raddedigion.

2.4 Hefyd, gwerth yw nodi bod tri SAU yn cynnig cyrsiau gradd sylfaen yn rhan o'u tariff israddedig. Mae cyrsiau o'r fath ar lefel 5 (lefel ail flwyddyn gradd

anrhydedd) ac yn draddodiadol, pobl nad ydynt yn bwriadu addysgu e.e. cynorthwywyr ystafell ddosbarth sy'n eu hastudio.

2.5 At hyn, yn arbennig ar lefel israddedig, yn ogystal â graddau Anrhydedd unigol mewn Addysg neu Astudiaethau Addysgol, mae yna gyfle i fyfyrwyr ddilyn gradd Addysg gyfun gyda phwnc arall mewn SAU yng Nghymru. Hefyd, cynigir yr hyn y gellid eu galw'n raddau Addysg 'arbenigol' gan nifer o sefydliadau, sy'n galluogi i fyfyrwyr ffocysu ar agwedd o addysg neu bwnc arbennig e.e. B.A. Addysg Gynhwysol (Casnewydd), BSc Dylunio a Thechnoleg (Bangor).

2.6 Mae gan raddau sy'n seiliedig ar bwnc o'r fath, ynghyd â nifer o raddau Addysg Gynradd hefyd statws athro cymwysedig (e.e. y rheiny a gynigir yng Nglyndŵr a Choleg Prifysgol y Drindod.)

2.7 Yn olaf, mae rhan fwyaf y cyrsiau gradd sylfaen (lefel 5), cyrsiau gradd Meistri (lefel 7) a chyrsiau diploma i Raddedigion (lefel 6 – lefel trydedd flwyddyn gradd anrhydedd) yn rhan amser, gan alluogi i athrawon presennol eu dilyn.

<u>Casgliadau</u>

2.8 Mae amrywiaeth eang o gyrsiau ar gael ar draws SAU Cymru, ac mae'r amrywiaeth yma'n cwmpasu cynnwys y cyrsiau a'u lefel. At hyn, mae yna hyblygrwydd mewn nifer o SAU sy'n rhoi'r cyfle i bobl gyfuno Addysg gyda phwnc arall i ddarparu achrediad cyfun.

2.9 Mae'r cyfryw amrywiaeth mewn cyrsiau o ran cyd-destun a lefel a'r ffaith bod yna gyfle i astudio Addysg ar y cyd â phwnc arall yn rhoi dewis helaeth i fyfyrwyr.

2.10 Yn yr un modd, mae darpariaeth cyrsiau rhan-amser, yn arbennig ar lefel gradd sylfaen, gradd Meistri a diploma i Raddedigion yn annog datblygiad proffesiynol parhaus ystyrlon ac achrededig, gan gynhyrchu ymarferwyr mwy cymwys a mwy medrus ac effeithiol.

3 CYRSIAU ADDYSG A ADDYSGIR A GYNHELIR GAN ADRANNAU ADDYSG MEWN SEFYDLIADAU ADDYSG UWCH YNG NGHYMRU A CHANDDYNT ADRAN BENODOL AR RÔL LLYWODRAETHWYR YSGOL

3.1 Mae tabl 2 "Cyrsiau SAU a chanddynt adran benodol ar rôl llywodraethwyr ysgol" yn dangos y SAU hynny a'r cyrsiau maent yn eu darparu sy'n cynnwys adran benodol ar rôl llywodraethwyr ysgol.

Tabl 2: Cyrsiau SAU a chanddynt adran benodol ar rôl llywodraethwyr ysgol

Enw'r Sefydliad	**Cyrsiau sy'n cynnwys adran benodol ar rôl llywodraethwyr ysgol**
Prifysgol Aberystwyth	_____
Prifysgol Bangor	BA Addysg Gynradd gyda SAC BSc Dylunio a Thechnoleg (Uwchradd) gyda SAC TAR Cynradd TAR Uwchradd
Prifysgol Glyndwr	_____
Prifysgol Cymru, Casnewydd	BA Astudiaethau Cynradd gyda SAC BSc Uwchradd (pob llwybr) TAR Uwchradd
Prifysgol Fetropolitan Abertawe	BA Astudiaethau Addysgol Graddau BA Anrhydedd Cyfun gydag Astudiaethau Addysgol TAR Cynradd TAR Uwchradd Diploma i Raddedigion
Coleg Prifysgol y Drindod	TAR Uwchradd mewn Addysg Grefyddol BA Addysg Gynradd gyda SAC
Prifysgol Metropolitan Caerdydd (UWIC)	BA Addysg

3.2 Er bod amrywiaeth o gyrsiau Addysg a addysgir yn cael eu cynnig mewn saith o SAU yng Nghymru, nid yw rôl llywodraethwyr ysgol yn cael ei chynnwys fel adran benodol ar bob cwrs.

3.3 Mewn dau SAU (Aberystwyth a Glyndŵr), nid oes adran benodol yn cael ei chynnwys ar yr un cwrs, ac mewn SAU eraill, mae'n amlwg nad yw rôl llywodraethwyr fel adran benodol yn ymddangos ar unrhyw gwrs Meistri a addysgir.

3.4 Er bod rhan fwyaf y cyrsiau israddedig a TAR a gynigir gan SAU yng Nghymru yn cynnwys adran benodol ar rôl llywodraethwyr ysgol, mae faint o amser a ddyrennir i'r adrannau hyn yn amrywio. Gweler Tabl 3 "Amser a ddyrennir i sesiynau

addysgu ar rôl llywodraethwyr ysgol ar gyrsiau a addysgir mewn SAU yng Nghymru"

Tabl 3: Amser a ddyrennir i sesiynau addysgu ar rôl llywodraethwyr ysgol ar gyrsiau a addysgir mewn SAU yng Nghymru

Enw'r Sefydliad	**Cwrs a faint o amser a ddyrennir i addysgu rôl llywodraethwyr ysgol**	
Prifysgol Bangor	BA Addysg Gynradd gyda SAC BSc Dylunio a Thechnoleg (Uwchradd) gyda SAC TAR Cynradd	1½ awr
	TAR Uwchradd	tua 1 awr
Prifysgol Cymru, Casnewydd	BA Astudiaethau Cynradd gyda SAC	2 awr (Blwyddyn 3)
	BSc Uwchradd (pob llwybr)	2 awr (Blwyddyn 2)
	TAR Uwchradd	2 awr
Prifysgol Fetropolitan Abertawe	BA Astudiaethau Addysgol Graddau BA Cyfun gydag Astudiaethau Addysgol	4 awr (Blwyddyn 1)
	TAR Cynradd TAR Uwchradd	rhan o sesiwn 1 awr
	Diploma i Raddedigion	amseroedd yn amrywio
Coleg Prifysgol y Drindod	TAR Uwchradd AddGref	2 awr
	BA Addysg Gynradd gyda SAC	Ni roddwyd amser
Prifysgol Metropolitan Caerdydd (UWIC)	Astudiaethau Addysg	1½ awr (Blwyddyn 2)

3.5 Yn gyffredinol, mae llai o amser wedi'i ddyrannu mewn cyrsiau TAR i addysgu rôl llywodraethwyr na chyrsiau eraill. Y ddau brif reswm am hyn yw yn gyntaf, dim ond am flwyddyn y mae cyrsiau TAR yn para tra bo cyrsiau israddedig eraill yn para tair blynedd: yn ail, mae rhan fwyaf o amser myfyriwr TAR yn cael ei dreulio ar leoliadau ysgol.

3.6 Mae'r anawsterau hyn yn cael eu cydnabod gan nifer o ymatebwyr - "mae rhaglenni H.A.G.A (Hyfforddiant ac Addysg Gychwynnol Athrawon) wedi'u gorlwytho â chynnwys ac nid yw'n bosibl cwmpasu pob agwedd yn fanwl", " Amser cyfyngedig sydd mewn blwyddyn TAR i ymdrin ag ystod eang o syniadau er mwyn bodloni safonau SAC. Er ein bod yn cydnabod bod rheolaeth ysgol yn bwysig, mae'n gysyniad haniaethol i lawer o fyfyrwyr TAR sy'n ceisio gafael mewn pethau fel cynllunio gwersi, asesu ar gyfer dysgu a gweithio gyda chynorthwywyr dosbarth."

3.7 Mae nifer o SAU yn cynnwys rhaglen yn yr ysgol fel rhan o'u cwrs TAR ac mae un ymatebwr yn awgrymu mai dyma pryd y gellid addysgu llawer am rôl

llywodraethwyr - "Dylid cyflwyno agweddau yn y rhan o'r cwrs sydd yn y brifysgol ond mae'n fwy naturiol ymdrin â hyn tra byddant ar leoliadau ysgol yn achos cyrsiau HAGA." Fodd bynnag, mae'r broblem sydd ynghlwm wrth ddibynnu ar y dull yma o addysgu hefyd yn cael ei gydnabod gan yr ymatebwr - "Dylid archwilio i gyfleoedd i hyfforddeion gael mewnwelediad i wahanol rolau oedolion (*mae hyn yn cynnwys llywodraethwyr)*, gan efallai nad yw pob ysgol (oherwydd eu maint) yn gallu cynnig y cyfleoedd hyn."

3.8 Fel arfer, rhoddir mwy o amser i addysgu rôl llywodraethwyr ar gyrsiau israddedig tair blynedd nag ar gyrsiau TAR un flwyddyn, gan amrywio o ddwy i bedair awr dros oes y cwrs.

3.9 Caiff y Diploma i Raddedigion a gynigir ym Mhrifysgol Fetropolitan Abertawe ei ddarparu ar y cyd â phartneriaid. Yn rhan helaethaf yr achosion, awdurdodau lleol yn Ne-Ddwyrain Cymru yw'r rhain. Mae sesiynau ar eu cyrsiau "Arweinyddiaeth a Rheolaeth" yn cynnwys adrannau penodol ar rôl llywodraethwyr yn nau o'u partneriaethau sef Partneriaeth 1, Abertawe a Nedd/Port Talbot a Phartneriaeth 2, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Rh.C.T a Merthyr Tudful.

3.10 Gyda phartneriaeth 1, mae yna sesiwn addysgu tua 40 munud ei hyd a chyda phartneriaeth 2 mae yna sesiwn addysgu o tua 1-1½ awr.

3.11 Diddorol yw nodi nad oes adran benodol ar rôl llywodraethwyr ar unrhyw gwrs Meistri yn SAU Cymru. Wrth gwrs, bydd penderfynu cynnwys adran o'r fath yn dibynnu'n fawr ar y pwnc/pynciau sy'n cael eu hastudio. Efallai na fyddech yn disgwyl i adran o'r fath ymddangos ar fodiwl sy'n ffocysu ar addysgu a dysgu. Fodd bynnag, o ystyried grymoedd a chyfrifoldeb cyfreithiol llywodraethwyr ysgol, efallai y byddech yn disgwyl i adran benodol ar rôl llywodraethwyr gael ei chynnwys ar fodiwlau sy'n ymdrin ag arweinyddiaeth a rheolaeth mewn ysgolion.

Casgliadau

3.12 At ei gilydd, mae cynnwys rôl llywodraethwyr ar gyrsiau a addysgir mewn SAU yng Nghymru yn amrywio. Mae'n arbennig o amlwg nad yw dau SAU yn ei gynnwys ar unrhyw un o'u cyrsiau, ac nid yw rôl llywodraethwyr yn ymddangos fel sesiwn addysgu benodol ar yr un cwrs Meistri.

3.13 Mae yna anghysondeb tebyg ynglŷn â faint o amser a ddyrennir i addysgu rôl llywodraethwyr ar gyrsiau, gan amrywio o lai nag 1 awr i 4 awr.

Argymhellion

3.14 O wybod cyfrifoldebau cyfreithiol pwysig llywodraethwyr ysgol, argymhellir y dylai pob cwrs Addysg israddedig gynnwys adran benodol a addysgir ar rôl llywodraethwyr.

3.15 Ni fyddai'n briodol argymell un amser sefydlog ar gyfer pob cwrs gan fod gwahanol gyrsiau'n debygol o amrywio o ran eu ffocws. Fodd bynnag, ar gyfer cyrsiau tair blynedd, byddai lleiafswm o 2 awr dros y tair blynedd yn briodol.

3.16 I gydnabod pwysau amser cyrsiau TAR un flwyddyn, byddai'n fwy priodol dyrannu lleiafswm o 1 awr i addysgu rôl llywodraethwyr. At hyn, argymhellir mai'r SAU ddylai darparu'r addysgu yma, ac nid yr ysgol, gan y byddai'n anodd sicrhau ansawdd y ddarpariaeth ar lefel ysgol. (Gweler 3.7)

3.17 O wybod y grymoedd a'r cyfrifoldebau cyfreithiol, argymhellir y dylid dyrannu amser addysgu penodol i rôl llywodraethwyr ar gyrsiau MA a Diplomâu i Raddedigion sy'n cynnwys modiwlau neu adrannau ar arweinyddiaeth a rheolaeth. Dylai faint o amser a dreulir amrywio yn ôl canran y cwrs sy'n ffocysu ar arweinyddiaeth a rheolaeth.

4 PYNCIAU A GWMPESIR WRTH ADDYSGU RÔL CYRFF LLYWODRAETHU YSGOLION AR GYRSIAU A CHANDDYNT ADRAN BENODOL SY'N CANOLBWYNTIO AR RÔL CYRFF LLYWODRAETHU YSGOLION

4.1 Nid yw dau ymatebwr yn nodi pynciau unigol wrth ymateb i'r cais yma, gan ddisgrifio'u hadran a addysgir fel "rôl llywodraethwyr ysgol". (Prifysgol Bangor, TAR Cynradd ac Uwchradd Prifysgol Fetropolitan Abertawe)

4.2 Fodd bynnag, mae'r ymatebion ar gyfer Prifysgol Cymru, Casnewydd a BA Astudiaethau Addysgol a BA gradd (Anrhydedd) Cyfun gydag Astudiaethau Addysgol Prifysgol Fetropolitan Abertawe yn fanylach, ac mae'r ddau gwrs yn dangos cryn debygolrwydd wrth nodi'r gwahanol bynciau a gwmpesir yn eu sesiynau a addysgir ar rôl llywodraethwyr. Y pynciau hyn yw:

- grymoedd a chyfrifoldebau cyfreithiol llywodraethwyr
- hyfforddi llywodraethwyr
- rhyngwyneb rhwng staff a llywodraethwyr
- effaith llywodraethwyr ar effeithiolrwydd ysgolion

4.3 At hyn, mae'r cwrs ym Mhrifysgol Fetropolitan Abertawe hefyd yn ystyried rôl llywodraethwyr mewn cynllunio strategol.

4.4 Mae ffocws y cyrsiau yng Ngholeg Prifysgol y Drindod a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd (UWIC) lawer mwy cul. Yn y Drindod, mae'r addysgu'n ffocysu ar hyfforddi llywodraethwyr ac yn UWIC, mae'n ffocysu ar rymoedd a chyfrifoldebau cyfreithiol llywodraethwyr.

4.5 Ar y cwrs Diploma i Raddedigion a gynhelir ym Mhrifysgol Fetropolitan Abertawe, ar y cyd â'i phartneriaid awdurdod lleol (gweler 3.9), mae rôl cynllunio strategol llywodraethwyr ysgol yn cael ei gwmpasu gan Bartneriaeth 1 (Abertawe a Nedd/Port Talbot) a chaiff chynllunio strategol, a monitro a gwerthuso eu cwmpasu gyda phartneriaeth 2 (Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Rh.C.T a Merthyr Tudful.)

<u>Casgliadau</u>

4.6 Mae yna lawer o debygolrwydd yn y pynciau a gwmpesir ar gyrsiau israddedig penodol ym Mhrifysgol Cymru, Casnewydd a Phrifysgol Fetropolitan Abertawe.

4.7 Mae yna fwy o amrywiaeth yn y pynciau a gwmpesir ar y ddau gwrs israddedig yn SAU eraill Cymru ac ar y cyrsiau Diplomâu i Raddedigion a gynigir gan Brifysgol Fetropolitan Abertawe.

Argymhellion

4.8 Argymhellir bod yr adran benodol a addysgir ar rôl llywodraethwyr ysgol yn cwmpasu, o leiaf, y pynciau hynny sy'n amlinellu prif rymoedd a dyletswyddau a rolau cyrff llywodraethu ysgol, sef:

- grymoedd a chyfrifoldebau cyfreithiol cyrff llywodraethu ysgolion
- rolau atebolrwydd, cynllunio strategol a monitro a gwerthuso cyrff llywodraethu ysgolion

5 ADRANNAU O GYRSIAU LLE BO RÔL LLYWODRAETHWYR YSGOL YN CAEL EI CHYFEIRIO ATI, NEU LLE RHODDIR SYLWADAU ARNI, OND LLE NAD YW AMSER PENODOL WEDI'I DDYRANNU IDDI

5.1 Mae yna dystiolaeth glir bod rôl llywodraethwyr yn cael ei chrybwyll ym mhob cwrs a gynigir gan SAU yng Nghymru er efallai nad yw'r pwnc yn ymddangos fel adran benodol.

5.2 Mae'r sefyllfa mewn SAU nad ydynt yn cynnwys adrannau penodol ar rôl llywodraethwyr ysgol yn cael ei chrynhoi gan un ymatebwr sy'n nodi bod "gwaith Llywodraethwyr a'u rôl o fewn y system yn dueddol o gael sylw o fewn adrannau penodol, h.y. arweinyddiaeth a rheolaeth, adolygiadau cwricwlwm, cyflogaeth, gweledigaeth a chenhadaeth."

5.3 Caiff y farn hon ei chefnogi gan ymatebwr arall – "Byddai Effeithiolrwydd Ysgol yn cynnwys ystyriaeth o rôl monitro a gwerthuso llywodraethwyr ysgol" a "byddai gwneud cais am swyddi addysgu'n cynnwys ystyriaeth o rôl llywodraethwyr wrth benodi athrawon."

5.4 Mae trydydd ymatebwr yn ychwanegu bod eu TAR nhw'n cynnwys adran benodol ar rôl oedolion eraill mewn ysgolion sy'n "cwmpasu agweddau ar waith llywodraethwyr" ac mae eu cwrs gradd Astudiaethau Plentyndod yn cynnwys modiwl graidd sy'n cwmpasu "rheoli, dewis ac atebolrwydd" a bydd cyrff llywodraethu ysgolion yn cael eu hystyried yn ystod y ddarlith hon (2 awr)".

5.5 Fodd bynnag, mae'n amhosibl mesur faint o gyfeiriadau a wneir at rôl llywodraethwyr pan nad y pwnc hwnnw yw prif ffocws sesiwn addysgu.

5.6 Mae'r sefyllfa hon, sy'n digwydd ar bob cwrs, yn cael ei disgrifio'n glir iawn gan un ymatebwr mewn perthynas â'u cwrs M.A. nhw "Mae yna fewnbwn ar y modiwl 'Arwain y Dysgu'. Dim ond yn anuniongyrchol y mae a wnelo hyn â rôl llywodraethwyr ...(mae un) sesiwn yn archwilio agweddau monitro ac atebolrwydd arweinyddiaeth athrawon a byddai'r rhain yn cynnwys cyfeiriad byr at waith llywodraethwyr. Mae un o'r sesiynau olaf ar y modiwl yn trafod rôl arolygiadau ysgol a chynllunio datblygiad ysgol gyfan, ond eto dim ond yn anuniongyrchol y cyfeirir at rôl llywodraethwyr.

5.7 Lle nad yw cyrsiau'n cynnwys adran wedi'i haddysgu benodol ar rôl llywodraethwyr, mae'n debyg bod y sefyllfa'n cael ei chrynhoi orau gan sylwadau cynhwysfawr un o'r ymatebwyr - "Mae arna'i ofn nad yw rôl a chyfrifoldebau llywodraethwyr yn ymddangos fel eitem fawr/blaenoriaeth yn y rhaglen TAR Uwchradd - dim ond darn bach mewn un o'r cyflwyniadau Astudiaethau Proffesiynol."

Casgliadau

5.8 Mae'n glir bod rôl llywodraethwyr yn cael ei chyfeirio ati ar ran fwyaf y cyrsiau Addysg a addysgir a ddarperir gan SAU Cymru. Fodd bynnag, ar gyrsiau lle nad oes yna adran benodol ar rôl llywodraethwyr, nid yw'n hawdd nodi, ac mae'n amhosibl bron mesur maint y cyfeiriadau a faint o flaenoriaeth a roddir i addysgu rôl llywodraethwyr ysgolion Cymru i fyfyrwyr.

Argymhellion

5.9 O wybod cyfrifoldebau a grymoedd cyfreithiol llywodraethwyr ysgol, nid yw'n briodol cyfeirio at eu rôl yn anuniongyrchol neu fel rhan fach o gyflwyniad neu sesiwn addysgu. Felly, argymhellir y dylai pob cwrs Addysg israddedig gynnwys adran a addysgir benodol ar rôl llywodraethwyr.

5.10 Ni fyddai'n briodol argymell un amser sefydlog ar gyfer pob cwrs gan fod cyrsiau unigol yn debygol o amrywio o ran eu ffocws. Fodd bynnag, ar gyfer cyrsiau tair blynedd, ymddengys y byddai o leiaf 2 awr dros y tair blynedd yn briodol.

5.11 I gydnabod pwysau amser cyrsiau TAR un flwyddyn, byddai'n fwy priodol dyrannu lleiafswm o 1 awr i addysgu rôl llywodraethwyr. At hyn, argymhellir mai'r SAU ddylai darparu'r addysgu yma, ac nid yr ysgol, gan y byddai'n anodd sicrhau ansawdd y ddarpariaeth ar lefel ysgol. (Gweler 3.7)

5.12 O wybod y grymoedd a'r cyfrifoldebau cyfreithiol, argymhellir y dylid dyrannu amser addysgu penodol i rôl llywodraethwyr ar gyrsiau MA sy'n cynnwys modiwlau neu adrannau ar arweinyddiaeth a rheolaeth. Dylai faint o amser a dreulir amrywio yn ôl canran y cwrs sy'n ffocysu ar arweinyddiaeth a rheolaeth.

6 ASEINIADAU MYFYRWYR AR RÔL LLYWODRAETHWYR YSGOL AR GYRSIAU A ADDYSGIR MEWN SEFYDLIADAU ADDYSG UWCH YNG NGHYMRU

6.1 Ar bedwar cwrs ar draws holl SAU Cymru, mae yna aseiniad gorfodol i fyfyrwyr ar rôl llywodraethwyr ysgol.

6.2 Nodir un aseiniad gorfodol o'r fath (o gwrs BA Addysg Gynradd gyda SAC) isod.

6.3 "Mae pwysigrwydd llywodraethwyr ysgol wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf, gyda llywodraethwyr bellach yn gyfrifol am feysydd penodol o'r cwricwlwm a materion eraill. Mae llawer o AALl yn darparu gwasanaethau i lywodraethwyr ysgol, gan gynnwys hyfforddiant.

6.4 Tasg: Gan ddefnyddio'r rhyngrwyd, chwiliwch am wefannau Gwasanaethau Cymorth i Lywodraethwyr a rhestrwch rai o'r cyrsiau a ddarperir gan Awdurdodau Addysg Lleol."

6.5 Yn ail, mae'r Diploma i Raddedigion a gynhelir gan Brifysgol Fetropolitan Abertawe ar gyfer athrawon presennol yn cynnwys aseiniad gorfodol ar y rhaglen Arweinyddiaeth a Rheolaeth sy'n seiliedig ar adroddiad a wnaed i gorff llywodraethu ysgol ar ddyrannu adnoddau. Fodd bynnag, er bod yr aseiniad hwn yn ystyried rôl monitro a gwerthuso llywodraethwyr, nid pwysleisio rôl llywodraethwyr yw ei bwrpas, ond yn hytrach y problemau a wynebir gan staff a llywodraethwyr wrth ddyrannu adnoddau. Yn debyg, mae'r Diploma i Raddedigion a'r BA (Anrh) Addysg Gynradd a gynhelir gan Goleg Prifysgol y Drindod yn cynnwys aseiniadau sy'n gofyn am adroddiad i gorff llywodraethu.

6.6 Er mai dim ond pedwar cwrs SAU a addysgir sy'n cynnwys aseiniadau gorfodol i fyfyrwyr ar rôl llywodraethwyr, mae nifer o ymatebwyr yn cyfeirio at aseiniadau gorfodol i fyfyrwyr lle gellid cyfeirio ar rôl llywodraethwyr ysgol.

6.7 Mae un radd Astudiaethau Addysgol yn cynnig y cyfle i fyfyrwyr drafod rôl llywodraethwyr pan fo raid iddynt gyflwyno aseiniad ar bolisi Llywodraethol o'u dewis. Mae'r ymatebwr wedi dweud bod cyfran fach wedi cyfeirio ar rôl llywodraethwyr wrth gwblhau'r aseiniad hwn.

6.8 Yn anffodus, nid yw hyn yn wir gyda'r cwrs MA a addysgir yn yr un sefydliad, lle dywed yr ymatebwr "Ym modiwl "Arwain y Dysgu" (y cwrs MA) mae briff yr aseiniad yn cynnig y cyfle i'r myfyriwr archwilio unrhyw agwedd ar arwain y dysgu ar unrhyw lefel yn y system addysg. Hyd yma, nid oes yr un myfyriwr wedi dewis archwilio rôl llywodraethwyr."

6.9 Efallai bod cyfeiriadau at rôl llywodraethwyr yn fwy arosgo ac achlysurol mewn aseiniadau a osodir yn yr SAU sy'n weddill, y gallai cwrs un o'r rhain gynnwys gwaith llywodraethwyr.

6.10 Yn y sefydliad hwn, dywed yr ymatebwr, am eu cwrs BA Astudiaethau Plentyndod, "Mae yna un cwestiwn ar yr aseiniad sy'n edrych ar 'reolaeth' ym Mlwyddyn 1. Disgwylir i'r myfyrwyr drafod cyrff llywodraethu, ond nid yw'r cwestiwn yn nodi llywodraethwyr ysgol yn benodol. Galw y mae am fanylion ar sut y mae 'rheolaeth' wedi newid."

Casgliadau

6.11 Nid oes cysondeb ar draws SAU Cymru o ran gofynion aseiniadau i gynnwys unrhyw agweddau ar rôl llywodraethwyr ysgol.

6.12 Mae aseiniadau ar rôl llywodraethwyr yn orfodol ar bedwar cwrs a gynigir gan SAU yng Nghymru, ond ar rai eraill, gall myfyrwyr gynhyrchu aseiniadau sydd naill ai'n ffocysu'n bennaf ar rôl llywodraethwyr ysgol neu sydd ddim ond yn cynnwys cyfeiriadau at rôl llywodraethwyr ysgol.

Argymhellion

6.13 Argymhellir, o wybod cyfrifoldebau llywodraethwyr ysgol, ar bob cwrs sy'n cynnwys adran/modiwl neu adrannau/modiwlau ar arweinyddiaeth a rheolaeth ysgolion, y dylid ystyried cynnwys aseiniad gorfodol, sy'n ffocysu ar rôl llywodraethwyr ac yn arbennig eu rolau allweddol atebolrwydd, cynllunio strategol a monitro a gwerthuso.

6.14 O wybod byrder cyrsiau TAR a'r ffaith bod rhan fwyaf y cwrs yn cael ei dreulio yn yr ysgol, efallai na fyddai'r gofyniad hwn yn berthnasol i gyrsiau TAR.

7 CRYNODEB O GASGLIADAU

7.1 Mae saith SAU yng Nghymru'n cynnig cyrsiau addysg a addysgir.

7.2 Mae pump o'r rhain yn cynnwys adran benodol ar rôl llywodraethwyr ysgol ar y rhan fwyaf o'u cyrsiau (am nifer y cyrsiau a gynigir gan SAU yng Nghymru a nifer y cyrsiau hynny sy'n cynnwys adran benodol ar rôl llywodraethwyr ysgol, cymharwch Dabl 1 a Thabl 2).

7.3 Mae faint o amser a ddyrennir i'r adran benodol ar rôl llywodraethwyr ysgol yn amrywio o gwrs i gwrs o lai nag un awr i bedair awr.

7.4 Mae yna lefel amrywiol o debygolrwydd yn y pynciau a gwmpesir ar rôl llywodraethwyr yn y SAU hynny sy'n cynnwys rôl llywodraethwyr yn adran benodol ar y cyrsiau maent yn eu cynnig.

7.5 Cyfeirir at rôl llywodraethwyr ar ran fwyaf y cyrsiau Addysg a addysgir a ddarperir gan SAU Cymru. Fodd bynnag, ar y cyrsiau hynny lle nad oes adran benodol ar rôl llywodraethwyr ysgol, nid yw'n hawdd nodi, ac mae'n amhosibl bron mesur maint y cyfeiriadau a faint o flaenoriaeth a roddir i addysgu myfyrwyr am rôl llywodraethwyr ysgolion Cymru.

7.6 Mae aseiniadau i fyfyrwyr ar rôl llywodraethwyr ysgol yn orfodol ar bedwar cwrs a gynigir gan SAU yng Nghymru (dau gwrs yn cael eu cynnig gan un SAU a dau gan ail SAU). Ar y cyrsiau eraill a gynigir gan SAU Cymru, gall myfyrwyr gynhyrchu aseiniadau sy'n ffocysu'n bennaf ar rôl llywodraethwyr ysgol neu sydd ddim ond yn cynnwys cyfeiriad(au) at rôl llywodraethwyr ysgol.

8 CRYNODEB O ARGYMHELLION

8.1 O wybod cyfrifoldebau a grymoedd cyfreithiol pwysig llywodraethwyr ysgol, nid yw'n briodol cyfeirio at eu rôl yn anuniongyrchol neu fel rhan fach o gyflwyniad neu sesiwn addysgu. Argymhellir y dylai pob cwrs Addysg israddedig gynnwys adran benodol a addysgir ar rôl llywodraethwyr.

8.2 Hefyd, dylai cyrsiau MA a Diplomâu i Raddedigion sy'n cynnwys modiwlau ar arweinyddiaeth a rheolaeth ddyrannu amser addysgu penodol i rôl llywodraethwyr ysgol.

8.3 Ni fyddai'n briodol argymell un amser sefydlog ar gyfer pob cwrs gan fod cyrsiau unigol yn debygol o amrywio o ran eu ffocws. Fodd bynnag, ar gyfer cyrsiau tair blynedd, byddai lleiafswm o 2 awr dros y tair blynedd yn briodol.

8.4 I gydnabod pwysau amser cyrsiau TAR un flwyddyn, byddai'n fwy priodol dyrannu lleiafswm o 1 awr i addysgu rôl llywodraethwyr. At hyn, argymhellir mai'r SAU ddylai darparu'r addysgu yma, ac nid yr ysgol, gan y byddai'n anodd sicrhau ansawdd y ddarpariaeth ar lefel ysgol. (gweler 3.7)

8.5 Ar gyrsiau MA a Diplomâu i Raddedigion a addysgir sy'n cynnwys modiwlau neu adrannau ar arweinyddiaeth a rheolaeth, dylid dyrannu amser addysgu penodol i rôl llywodraethwyr. Dylai faint o amser a dreulir amrywio yn ôl canran y cwrs sy'n ffocysu ar arweinyddiaeth a rheolaeth.

8.6 Ar gyfer cyrsiau Addysg israddedig, argymhellir bod yr adran benodol a addysgir ar rôl llywodraethwyr ysgol yn cwmpasu, o leiaf, y pynciau hynny sy'n amlinellu prif rymoedd a dyletswyddau a rôl cyrff llywodraethu ysgol, sef:

- grymoedd a chyfrifoldebau cyfreithiol cyrff llywodraethu ysgolion
- rolau atebolrwydd, cynllunio strategol a monitro a gwerthuso cyrff llywodraethu ysgolion

8.7 Argymhellir, o wybod cyfrifoldebau llywodraethwyr ysgol, ar bob cwrs sy'n cynnwys adran/modiwl neu adrannau/modiwlau ar arweinyddiaeth a rheolaeth ysgolion, y dylid ystyried cynnwys aseiniad gorfodol, sy'n ffocysu ar rôl llywodraethwyr ac yn arbennig eu rolau atebolrwydd, cynllunio strategol a monitro a gwerthuso allweddol.

8.8 O wybod byrder cyrsiau TAR a'r ffaith bod rhan fwyaf y cwrs yn cael ei dreulio yn yr ysgol, efallai na fyddai'r gofyniad hwn yn berthnasol i gyrsiau TAR.

Atodiad 1

Swansea Metropolitan University
Prifysgol Fetropolitan Abertawe

Canolfan Hyfforddi Llywodraethwyr ac Ymchwil Cymru Gyfan

Cynnwys rôl llywodraethwyr ysgol yn bwnc mewn cyrsiau addysg a addysgir mewn Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru

Enw'r Sefydliad Addysg Uwch .....

Pennaeth yr Adran .....

1 Rhestrwch yr holl gyrsiau addysg a addysgir a gynhelir gan eich adran. Dylai hyn gynnwys pob cwrs israddedig, cwrs TAR a phob cwrs Meistri.

Teitl y Cwrs

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

2 Ar gyfer pob cwrs, dywedwch a oes yna adran benodol ar rôl llywodraethwyr ysgol.

3 Ar gyfer pob cwrs lle bo adran benodol ar rôl llywodraethwyr ysgol yn bodoli, nodwch faint o amser a ddyrennir i adrannau o'r fath, e.e. Astudiaethau Addysg Blwyddyn 1 - 2 x darlith 1 awr, Blwyddyn 2 ni ddyrennir amser, Blwyddyn 3 - 1 x darlith 1 awr.

4 Ar gyfer pob cwrs, lle bo adran benodol ar rôl llywodraethwyr ysgol yn bodoli, nodwch y math o bynciau a gwmpesir, e.e. rôl strategol llywodraethwyr, rôl monitro a gwerthuso llywodraethwyr ysgol ac ati

5 Ar gyfer pob cwrs a gynigir, nodwch unrhyw adrannau lle bo rôl llywodraethwyr, er nad yw efallai'n cael dyraniad amser penodol, yn (**nid "efallai'n")** cael ei chyfeirio ati neu lle rhoddir sylwadau arni.

6 Ar gyfer pob cwrs y sonioch amdanynt yn eich ymateb i gwestiwn 5, nodwch y math o feysydd a gwmpesir ac, os yn bosibl, tua faint o amser a dreulir arnynt?

7 A yw unrhyw aseiniadau y mae'n rhaid i fyfyrwyr eu cwblhau yn cyfeirio'n uniongyrchol at rôl llywodraethwyr? Os felly, ar ba gyrsiau arbennig y mae aseiniad(au) o'r fath wedi'u gosod ac ym mha flynyddoedd?

8 Byddai'n ddefnyddiol iawn pe fyddech yn fodlon nodi teitl(au) unrhyw aseiniadau y sonioch amdanynt yng nghwestiwn 7.

9 A yw unrhyw rai o'r aseiniadau y mae'n rhaid i fyfyrwyr eu cwblhau, er nad ydynt efallai'n cyfeirio'n uniongyrchol at rôl llywodraethwyr, yn disgwyl i fyfyrwyr gyfeirio at eu rôl? Os felly, ar ba gyrsiau y mae aseiniadau o'r fath wedi'u gosod ac ym mha flwyddyn?

10 Byddai'n ddefnyddiol iawn pe fyddech yn fodlon nodi teitl(au) unrhyw aseiniadau y sonioch amdanynt yng nghwestiwn 9.

11 Byddai'r Ganolfan yn croesawu unrhyw sylwadau yr hoffech eu rhoi ar addysgu rôl llywodraethwyr ysgol ar gyrsiau addysg a addysgir yn eich sefydliad chi yn arbennig a/neu mewn SAU yng Nghymru'n gyffredinol.

Parhewch dros y dudalen

Atodiad 1

Diolch am eich help wrth lenwi'r holiadur hwn.

A fyddech gystal â'i ddychwelyd erbyn **15fed Rhagfyr 2009** at:

Steve Gullick, Cyfarwyddwr y Prosiect
Canolfan Hyfforddi Llywodraethwyr ac Ymchwil Cymru Gyfan
Ysgol Addysg Abertawe,
Prifysgol Fetropolitan Abertawe, Heol Townhill, Abertawe, SA2 0UT

Ffôn: 01792 482065

Ffacs: 01792 482076

E-bost: steve.gullick@smu.ac.uk